Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar wasanaethau addysg yng

# Nghyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

Y Ganolfan Ddinesig
Port Talbot
Castell-nedd Port Talbot
SA13 1PJ

Dyddiad yr arolygiad:  Mehefin 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant

yng Nghymru

## Ynglŷn â Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

Mae 20,741 o ddisgyblion ar draws 63 ysgol yng Nghastell-nedd Port Talbot. Mae 51 o ysgolion cynradd, 1 ysgol iau ac un ysgol babanod, 3 ysgol bob oed, 5 ysgol uwchradd, a 2 ysgol arbennig. Mae 11 o'r ysgolion hyn yn ddarparwyr cyfrwng Cymraeg.

Dros gyfartaledd o dair blynedd, mae 27.5% o ddisgyblion rhwng 5 ac 15 oed yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

Mae arolygwyr yn ystyried ystod eang o wybodaeth am y boblogaeth leol wrth werthuso deilliannau ac ansawdd gwasanaethau addysg. Maent yn ystyried y wybodaeth hon ochr yn ochr â gwybodaeth am y boblogaeth genedlaethol. Mae rhywfaint o'r wybodaeth fwyaf defnyddiol am blant a phobl ifanc yng Nghastell-nedd Port Talbot wedi'i nodi isod:

- Mae 8.1% o ddisgyblion rhwng 5 ac 15 oed o leiafrifoedd ethnig.
- Mae gan 2.5% o ddisgyblion rhwng 5 ac 15 oed anghenion dysgu ychwanegol neu anghenion addysgol arbennig (Gweithredu gan yr Ysgol).
- Mae gan 2.1% o ddisgyblion rhwng 5 ac 15 oed anghenion dysgu ychwanegol neu anghenion addysgol arbennig (Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy).
- Mae gan 4.7% o ddisgyblion rhwng 5 ac 15 oed anghenion dysgu ychwanegol neu anghenion addysgol arbennig (â Datganiad).
- Mae gan 5.3% o ddisgyblion rhwng 5 ac 15 oed anghenion dysgu ychwanegol neu anghenion addysgol arbennig (Cynllun Datblygu Unigol).
- Mae 1.9% o ddisgyblion rhwng 5 ac 15 oed yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol (A, B, neu C).
- Mae 13.4% o ddisgyblion rhwng 5 ac 15 oed yn rhugl yn y Gymraeg.
- Mae 215 o blant yn derbyn gofal (wedi'i dalgrynnu i'r 5 agosaf am resymau datgelu).

## Crynodeb

Mae arweinwyr yng ngwasanaethau addysg Cyngor Sir Castell-nedd Port Talbot yn creu ymdeimlad cryf o waith tîm. Mae swyddogion, aelodau ac arweinwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn gynhyrchiol, gyda ffocws cyson ar gynnal perthnasoedd cadarnhaol ag ysgolion a gweithredu er lles pennaf plant a phobl ifanc. Mae'r awdurdod wedi ymrwymo'n fawr i gefnogi ei ysgolion a chreu'r amodau ar gyfer sicrhau gwelliant. Er gwaethaf hyn, nid yw'r arweinyddiaeth strategol yn ddigon effeithiol nac yn ddigon manwl gywir, yn enwedig prosesau rheolaeth llinell a gwerthuso a gwella. Mae'r Prif Weithredwr a benodwyd yn ddiweddar, ynghyd â'r Cyfarwyddwr Strategaeth a Gwasanaethau Corfforaethol, wedi dechrau sefydlu systemau cryfach, gan gynnwys cryfhau'r defnydd o ddata, i sicrhau bod y gyfarwyddiaeth yn gallu cynllunio'n fwy manwl ar gyfer gwella.

Mae'r tîm gwella ysgolion yn meddu ar ddealltwriaeth eang o'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella yn ysgolion Castell-nedd Port Talbot. Maent wedi datblygu pecynnau cymorth teilwredig, yn bennaf ar gyfer ysgolion cynradd, gyda ffocws ar wella addysgu ac ansawdd gwerthuso. Fodd bynnag, mae'r cymorth ymarferol ar gyfer ysgolion uwchradd yn llai datblygedig. Yn ychwanegol, mae effaith gwaith y timau gwella ysgolion yn rhy amrywiol. Mae hyn oherwydd bod eu gwerthusiadau o effaith eu gwaith, yn aml, yn rhy gadarnhaol. Nid ydynt yn canolbwyntio ddigon manwl ar effaith eu gwaith ar wella'r ddarpariaeth a'r deilliannau ar gyfer disgyblion. Mae deilliannau arolygu yng Nghastell-nedd Port Talbot wedi bod yn amrywiol, ac mae cyfran yr ysgolion sy'n cael eu gosod mewn categori gweithgarwch dilynol wedi cynyddu yn ddiweddar.

Mae'r cymorth i ysgolion i wella presenoldeb ac ymddygiad disgyblion yn gryf, ar y cyfan, ac wedi cael effaith gadarnhaol. Mae cyfraddau presenoldeb, gan gynnwys ar gyfer y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, wedi gwella'n dda, ac mae cyfraddau gwaharddiadau wedi gostwng yn sylweddol. Mae ysgolion yn gwerthfawrogi'r ystod eang o gymorth a her ar gyfer yr agwedd hon ar eu gwaith. Mae'r awdurdod lleol yn rhoi blaenoriaeth uchel i leihau effaith tlodi ar blant a phobl ifanc. Mae swyddogion yn gweithio'n agos gydag ysgolion i roi ystod o strategaethau ar waith, ac mae'r rhain wedi cael effaith gadarnhaol ar leihau nifer y plant a'r bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NACH).

Mae swyddogion anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn darparu cymorth buddiol a thargedig i ysgolion. Maent yn darparu ystod eang o wasanaethau sy'n anelu at feithrin capasiti mewn ysgolion i gynorthwyo â'r galw cynyddol a nodwyd gan swyddogion. Mae gwaith yr awdurdod i gefnogi plant a phobl ifanc ag ADY yn amrywio'n fawr, ac yn gyffredinol, mae deilliannau arolygu mewn ysgolion yn adlewyrchu'n gadarnhaol ar y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag ADY.

Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth glir o sefyllfa ariannol bresennol y gyfarwyddiaeth ac ysgolion. Maent wedi blaenoriaethu cyllid yn ddiweddar i fynd i'r afael â'r materion hyn. Fodd bynnag, dros gyfnod, nid yw penderfyniadau strategol wedi lliniaru'n llawn yn erbyn yr heriau ariannol cynyddol sy'n wynebu'r gyfarwyddiaeth ac ysgolion. Mae hyn yn creu risg bwysig i'r awdurdod lleol.

Mae'r awdurdod lleol yn rhoi blaenoriaeth uchel i ddiogelu. Mae aelodau, arweinwyr a swyddogion yn hyrwyddo diwylliant diogelu cryf ac yn ymateb yn gadarn i unrhyw bryderon. Gall ysgolion fanteisio ar ystod fuddiol o hyfforddiant a chymorth. Mae ysgolion yn gwerthfawrogi'n arbennig yr adolygiadau cymheiriaid rheolaidd sy'n eu helpu i gryfhau arfer diogelu yn eu hysgolion.

Mae negeseuon a gwerthusiadau o arolygiad gwaith ieuenctid a gynhaliwyd yn fuan cyn yr arolygiad hwn wedi helpu llywio arolygiad ehangach y gwasanaethau addysg llywodraeth leol, lle bo'n berthnasol.

## Argymhellion

A1 Mynd i'r afael ar frys ac yn strategol â'r heriau ariannol sy'n wynebu'r gyfarwyddiaeth ac ysgolion

A2 Gwella ansawdd ac effaith arweinyddiaeth strategol, gan gynnwys trefniadau atebolrwydd a rheoli perfformiad

A3 Miniogi prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant

A4 Cryfhau prosesau gwella ysgolion a gwella'r defnydd o wybodaeth y mae'r awdurdod lleol yn ei chasglu am ei ysgolion

## Beth sy'n digwydd nesaf

Ar ôl cyhoeddi'r adroddiad arolygu, dylai'r awdurdod lleol ddiweddaru ei gynlluniau i fynd i'r afael â'r argymhellion ac ystyried y diffygion a nodwyd trwy'r broses arolygu. Dylai'r awdurdod lleol ddiweddaru ei gynlluniau o fewn tri mis o gyhoeddi'r adroddiad arolygu.

# Prif ganfyddiadau

## Gwasanaethau addysg a'u heffaith

### Pa mor effeithiol yw'r gefnogaeth i wella ysgolion, yn enwedig wrth gefnogi gwerthuso a gwella, addysgu a chwricwlwm gan gynnwys trwy gyfrwng y Gymraeg?

Mae awdurdod lleol Castell-nedd Port Talbot wedi datblygu perthnasoedd cryf â'i ysgolion, sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at ddiwylliant gwella cefnogol. Mae swyddogion cymorth addysg yn weladwy, yn uchel eu parch ac yn treulio cryn dipyn o amser mewn ysgolion. Mae eu dull cydweithredol yn meithrin ymddiriedaeth, gan helpu cryfhau dealltwriaeth arweinwyr ysgolion o hunanwerthuso a gwelliant fel proses barhaus.

At ei gilydd, mae'r awdurdod lleol yn gwybod beth yw'r cryfderau bras a'r blaenoriaethau ar gyfer gwella mewn ysgolion unigol. Mae'n casglu ystod o dystiolaeth uniongyrchol ac yn ei defnyddio i nodi'r ysgolion prin sy'n achosi'r pryder mwyaf. Mewn ychydig iawn o achosion, mae'r awdurdod lleol yn defnyddio'i bwerau ymyrraeth statudol yn briodol, er enghraifft trwy gryfhau llywodraethu lle nad yw ysgolion yn mynd i'r afael â diffygion difrifol.

Mae swyddogion yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod pob un o'r ysgolion ac yn ymateb yn hyblyg i anghenion unigol, gan fanteisio ar arbenigedd ei gilydd i drefnu a theilwra cymorth. Fodd bynnag, nid yw'r gwasanaeth gwella yn dwyn ynghyd yr holl wybodaeth y mae'n ei chasglu am ei ysgolion. Mae swyddogion yn dibynnu gormod ar ddulliau anffurfiol i rannu deallusrwydd a chytuno ar y camau nesaf, yn hytrach nag ar systemau strwythuredig. Mewn cyfarfodydd gwella ysgolion, yn aml, ni chaiff camau gweithredu, cyfrifoldebau a graddfeydd amser eu cofnodi. Mae hyn yn cyfyngu ar allu'r awdurdod lleol i fonitro cynnydd pob ysgol yn gadarn a sicrhau bod ysgolion yn gwella mewn modd amserol. O bryd i'w gilydd, mae prosesau ymyrraeth yn adweithiol, ac nid yw swyddogion yn gwerthuso fel mater o drefn pa mor gyflym, neu effeithiol, y mae ysgolion yn ymateb i her yr awdurdod i wella.

Mae cynnig dysgu proffesiynol yr awdurdod lleol ar gyfer ysgolion yn canolbwyntio'n briodol ar flaenoriaethau cenedlaethol. Yn y sector cynradd, mae swyddogion yn darparu cymorth ymarferol yn yr ystafell ddosbarth ar gyfer addysgu, dysgu a datblygu'r cwricwlwm mewn meysydd fel llythrennedd, rhifedd a chrefydd, gwerthoedd a moeseg. Er mwyn ymateb i ddatblygiadau cenedlaethol wrth gyflwyno trefniadau'r bartneriaeth gwella ysgolion, mae'r awdurdod yn gweithio gydag arweinwyr i gryfhau cydweithio ar draws sectorau. Mae'n adeiladu ar waith buddiol mewn ychydig o glystyrau, er enghraifft i ddatblygu ymagweddau mwy effeithiol at addysgu darllen.

Mewn ysgolion uwchradd, mae’r rhan fwyaf o’r cymorth ar gyfer arweinyddiaeth ac addysgu trwy werthuso ar y cyd â swyddogion yr awdurdod lleol a chyfarfodydd y rhwydwaith cymheiriaid. Yn gyffredinol, mae’r gweithgareddau hyn yn darparu cyfleoedd dysgu defnyddiol ar gyfer arweinwyr canol ac uwch arweinwyr. Fodd bynnag, mae cymorth ymarferol ar gyfer gwella arweinyddiaeth ac agweddau ar addysgu a dysgu yn y sector uwchradd yn llai sefydledig nag yn y sector cynradd. At ei gilydd, ceir mynediad cyfyngedig at gymorth sy’n gwella ansawdd yr addysgu ar draws ac o fewn meysydd dysgu a phrofiad yn y sector uwchradd. Er bod ysgolion yn cyfarfod i rannu arfer a dysgu oddi wrth ei gilydd o fewn yr awdurdod lleol, megis dechrau cael eu darparu y mae cyfleoedd i wneud hynny’n ehangach.

At ei gilydd, mae gwaith i gefnogi ysgolion cyfrwng Cymraeg yn gadarn. Gyda chymorth swyddog cymorth dynodedig addysg Gymraeg, mae ysgolion o fewn y clwstwr wedi datblygu cynllun gwella i gytuno ar flaenoriaethau allweddol o ran llafaredd, darllen, presenoldeb ac agweddau ar arweinyddiaeth. Mae hyn yn helpu cydlynu gwaith gwella ar draws sectorau oedran a rhannu arfer dda.

Mae tîm bach o swyddogion datblygu yn darparu cymorth buddiol ar gyfer hyrwyddo’r Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda chydlynwyr Cymraeg a staff sy’n arwain ar ddatblygu defnydd disgyblion o’r Gymraeg mewn cyd-destunau cymdeithasol a meithrin ethos iaith cryf. Mae’r tîm yn hyrwyddo ymagwedd gyfannol at addysgu Cymraeg, gyda phwyslais clir ar lafaredd, ac yn darparu cymorth yn y dosbarth ar gyfer athrawon a chynorthwywyr cymorth dysgu. Er bod y rhan fwyaf o’r cymorth hwn yn digwydd mewn ysgolion cynradd, gall arweinwyr canol y Gymraeg yn y sector uwchradd fanteisio ar yr un gyfres o adnoddau dysgu proffesiynol buddiol.

Mae’r awdurdod lleol wedi cyflwyno hyfforddiant teilwredig gwerthfawr ar gyfer penaethiaid newydd a phenaethiaid dros dro, a menter dwy flynedd ‘Arweinwyr y Dyfodol’ i feithrin capasiti arwain a chefnogi cynllunio dilyniant. Mae llywodraethwyr hefyd yn elwa ar gynnig cynhwysfawr o ran cymorth a hyfforddiant sy’n cwmpasu agweddau allweddol ar arweinyddiaeth ac atebolrwydd ysgolion. Mae arweinwyr, staff a llywodraethwyr ysgolion yn rhannu adborth yn rheolaidd ar ôl mynychu dysgu proffesiynol. Mae’r awdurdod yn defnyddio’r wybodaeth hon i addasu ei ddarpariaeth, er enghraifft trwy wella’i gynnig addysgu a dysgu i gynnwys mwy o gymorth mewn dosbarthiadau ar gyfer datblygu’r cwricwlwm. Fodd bynnag, er bod yr awdurdod yn casglu adborth yn dda, nid yw’n gwerthuso effaith hirdymor ei gymorth yn gadarn. O ganlyniad, nid yw’n glir pa mor bell y mae’r mentrau hyn wedi cryfhau arweinyddiaeth a llywodraethu mewn ysgolion, wedi gwella addysgu neu wedi cefnogi datblygu’r cwricwlwm.

Mae’r awdurdod lleol yn llunio ystod eang o adroddiadau ar ei waith gwella ysgolion i lywio hunanwerthuso’r gwasanaeth a hunanwerthuso corfforaethol. Fodd bynnag, mae adrodd ar addysgu, cwricwlwm ac arweinyddiaeth yn aml yn rhy gadarnhaol ac nid yw bob

amser yn alinio â gwerthusiadau mewnol eraill, yn enwedig o ysgolion uwchradd lle nodir yn fynych fod disgwyliadau ar gyfer dysgu a chynnydd yn rhy isel. Mae'r diffyg eglurder hwn yn ei gwneud yn anodd i uwch arweinwyr ac aelodau etholedig ddeall yn gywir pa mor dda y mae'r awdurdod yn cefnogi gwelliant ysgolion.

Dros gyfnod, mae deilliannau arolygu mewn ysgolion wedi bod yn amrywiol. Er mis Chwefror 2022, rydym wedi arolygu un ysgol uwchradd ac wedi rhoi'r ysgol honno yn y categori gwelliant sylweddol. Cafodd yr ysgol hon ymweliad monitro ym mis Hydref 2024 a barnwyd ei bod wedi gwneud cynnydd annigonol. Felly, cafodd ei rhoi yn y categori mesurau arbennig. Rydym wedi arolygu dwy ysgol bob oed, hefyd. Gosodwyd un o'r ysgolion hyn yn y categori adolygu gan Estyn, ac mae wedi cael ei thynnu oddi yno ers hynny. Barnwyd nad oedd angen unrhyw weithgarwch dilynol ar y llall.

Er mis Chwefror 2022, rydym wedi arolygu 26 ysgol gynradd. Barnwyd nad oedd angen unrhyw lefel o weithgarwch dilynol ar 17 o'r rhain, a gofynnwyd i dair ysgol ddarparu astudiaeth achos arfer effeithiol. Gosodwyd 5 ysgol gynradd yn y categori adolygu gan Estyn, ac mae pedair o'r rhain bellach wedi cael eu tynnu o'r lefel hon o weithgarwch dilynol. Barnwyd bod angen gwelliant sylweddol ar un ysgol gynradd, a rhoddwyd tair ysgol yn y categori mesurau arbennig. Mae cyfran yr ysgolion cynradd sy'n cael eu rhoi mewn categori gweithgarwch dilynol wedi cynyddu yn ddiweddar. Mae ansawdd darpariaeth y cwricwlwm, addysgu a hunanwerthuso wedi bod yn argymhellion rheolaidd mewn ysgolion cynradd yng Nghastell-nedd Port Talbot. Rydym wedi arolygu'r ddwy ysgol arbennig yng Nghastell-nedd Port Talbot a barnwyd nad oes angen unrhyw lefel o weithgarwch dilynol ar y naill na'r llall.

## Pa mor dda mae'r awdurdod lleol yn cefnogi ysgolion i wella presenoldeb ac ymddygiad?

Mae gan yr awdurdod lleol ffocws cryf ar wella presenoldeb ysgolion. Mae'n cyfleu ei strategaeth ar gyfer gwella presenoldeb yn effeithiol gydag ysgolion, rhanddeiliaid, a thrwy ei ymgyrch 'Colli'r Ysgol, Colli Allan' ('Miss School, Miss Out'). Mae swyddogion wedi datblygu arweiniad buddiol ar gyfer ysgolion, sy'n cefnogi eu gwaith i wella presenoldeb a lleihau gwaharddiadau. Mae ysgolion yn gwerthfawrogi'r cymorth gan swyddogion, gan gynnwys rhannu data presenoldeb defnyddiol bob mis rhwng ysgolion i gynyddu'r her i wella'u presenoldeb ymhellach.

Mae swyddogion lles addysg yr awdurdod yn ymgysylltu'n effeithiol â chlystyrau o ysgolion i'w helpu i wella presenoldeb disgyblion. Mae ffocws cryf ar gefnogi disgyblion pan fyddant yn pontio o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7, sy'n galluogi swyddogion i ddod i adnabod y teuluoedd sydd fwyaf mewn angen, a'u cefnogi. Mae swyddogion yn cyfeirio rhieni yn fuddiol at fwy o gymorth buddiol gan wasanaethau eraill.

Pan fydd presenoldeb disgybl yn peri pryder penodol, mae'r Swyddogion Cymorth Presenoldeb yn gweithio gydag ysgolion i gynorthwyo disgyblion a'u teuluoedd i helpu lleihau absenoldeb parhaus. Mae systemau clir ar waith lle gellir uwchgyfeirio achosion, ac wedyn, cyflwynir dull amlasiantaethol buddiol.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae cyfraddau presenoldeb wedi gwella ac maent yn cymharu'n dda yn genedlaethol. Yn ychwanegol, yn ystod yr un cyfnod, mae cyfraddau absenoldebau parhaus wedi gostwng. Fodd bynnag, mae cyfraddau presenoldeb yn parhau i fod islaw lefelau cyn y pandemig. Mae presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn yr awdurdod dros y ddwy flynedd ddiwethaf yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, ac mae'r bwlch rhwng presenoldeb y disgyblion hyn a'u cyfoedion wedi culhau.

Trwy dimau cymorth ymddygiad a lles amrywiol yr awdurdod lleol, ceir strategaeth glir i helpu ysgolion i reoli ymddygiad disgyblion. Gan fod cyfraddau gwaharddiadau'n rhy uchel, mae'r awdurdod wedi gweithio'n rhagweithiol i fynd i'r afael â'r mater hwn a chyfraddau gwaharddiadau parhaol. Mae data heb ei wirio yn awgrymu bod nifer y gwaharddiadau cyfnod penodol wedi gostwng yn dda yn y ddwy flynedd ddiwethaf, a nifer y gwaharddiadau parhaol wedi gostwng.

Mae swyddogion yn canolbwyntio'n briodol ar feithrin capasiti staff ysgolion i feithrin perthnasoedd da â disgyblion a defnyddio dulliau addas i reoli ymddygiad heriol gyda'r nod i atal yr angen i wahardd disgyblion. Mae'r awdurdod yn hyrwyddo nodi ac ymyrraeth gynnar ac yn darparu strategaethau, hyfforddiant a chymorth ataliol defnyddiol ar gyfer staff. Mae'r gwasanaeth 'Lles ac Ymddygiad' yn darparu cymorth teilwredig ar gyfer staff i'w helpu i ddiwallu anghenion disgyblion penodol. Mae swyddogion 'Cynnydd' ym mhob ysgol uwchradd yn gweithio ochr yn ochr â staff i nodi a chefnogi unigolion a grwpiau o ddisgyblion. Maent yn addasu cymorth i ddiwallu anghenion unigol ac yn ymgysylltu'n dda â theuluoedd i helpu deall cyd-destun pob disgybl. Caiff eu gwaith ei werthfawrogi gan ysgolion i'w helpu i reoli ymddygiad disgyblion. Mae'r tîm 'Asesu a Dilyniant Achosion' yn darparu un pwynt cyswllt gwerthfawr ar gyfer ysgolion lle ceir pryderon am ddisgyblion sydd mewn perygl o gael eu gwahardd. Maent yn gweithio'n llwyddiannus gydag ysgolion, teuluoedd a disgyblion i ennill dealltwriaeth well o'r rhwystrau rhag ymgysylltu yn yr ysgol. Mae'r awdurdod yn gwneud defnydd effeithiol o'i gwricwlwm addysg awyr agored i gyfoethogi profiadau disgyblion a helpu gwella'u hagweddau at ddysgu.

Er bod yr awdurdod lleol yn gwneud defnydd defnyddiol o ddata i hysbysu effaith eu gwaith ynghylch gwella presenoldeb ac ymddygiad, nid ydynt bob amser yn gwerthuso agweddau penodol yn ddigon manwl.

Mae'r awdurdod lleol yn gweithredu tair canolfan asesu ar gyfer disgyblion sy'n cael trafferthion mewn addysg brif ffrwd amser llawn. Mae'r rhain yn rhoi cyfle i ddisgyblion a

nodwyd fynychu canolfannau arbenigol i hyrwyddo'u medrau emosiynol ac ymddygiadol yn rhan-amser, tra'n parhau i fynychu eu hysgol gartref am gyfnod.

O Flwyddyn 1, gall disgyblion fanteisio ar wasanaethau cwnsela'r awdurdod i gynorthwyo ag unrhyw anghenion cymdeithasol ac emosiynol. Yn ychwanegol, gall staff ysgolion fanteisio ar wasanaeth gorychwiliaeth wrth i'r awdurdod gydnabod y cysylltiad rhwng lles staff a disgyblion. Mae data a gasglwyd gan y gwasanaeth cwnsela mewn ysgolion yn dangos bod y gwaith hwn wedi cael effaith gadarnhaol ar wella lles llawer o staff a disgyblion sydd wedi derbyn cymorth.

## Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn cynllunio'n strategol i ddiwallu anghenion disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol?

Mae'r awdurdod lleol yn rhannu gweledigaeth glir a phwrpasol i gynorthwyo disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae diwylliant o gynhwysiant yn sail i'r weledigaeth hon, sydd wedi bod yn allweddol o ran galluogi dysgwyr i fanteisio ar ddarpariaeth arbenigol sy'n diwallu eu hanghenion yn effeithiol.
Mae gan yr awdurdod dîm cynhwysiant sefydledig ac angerddol sy'n hynod wybodus ac wedi ymrwymo i wella darpariaeth a deilliannau ar gyfer disgyblion ag ADY. Mae swyddogion yn gweithio'n agos gydag ysgolion a lleoliadau, gan feithrin perthnasoedd gwaith cryf. Mae hyn yn cefnogi cyflwyno ystod eang o wasanaethau gwerthfawr yn effeithiol, gyda ffocws cryf ar feithrin capasiti. Mae'r awdurdod lleol wedi cefnogi ysgolion trwy gyhoeddi dogfennau arweiniad defnyddiol sy'n amlinellu disgwyliadau ar gyfer arfer gynhwysol. Mae'r deunyddiau hyn yn cynorthwyo arweinwyr i wneud penderfyniadau gwybodus am ddarpariaeth angenrheidiol a phriodol. Mae hyn yn sicrhau bod ysgolion wedi'u harfogi'n gynyddol i nodi anghenion dysgu ychwanegol eu disgyblion, ac ymateb iddynt. Mae adroddiadau arolygu ysgolion ar draws yr awdurdod yn adlewyrchu'n gadarnhaol o ran darpariaeth ADY.
Mae gweithio mewn partneriaeth ag ystod o randdeiliaid yn nodwedd gadarnhaol yn ymagwedd yr awdurdod. Maent wedi sefydlu cysylltiadau cynhyrchiol â theuluoedd ac asiantaethau eraill. Er enghraifft, mae'r bartneriaeth â'r bwrdd iechyd lleol wedi arwain at ddatblygu darpariaeth therapi galwedigaethol mewn ysgolion ar gyfer disgyblion y mae angen cymorth o'r fath arnynt. Yn ychwanegol, mae'r tîm Seicoleg Addysg wedi cynhyrchu podlediadau ac adnoddau addysgiadol i "chwalu mythau" sydd wedi'u hanelu at alluogi teuluoedd i gefnogi eu plant yn well. Caiff y gwaith allymestyn a ddarperir gan ysgolion arbennig ei werthfawrogi'n arbennig gan leoliadau prif ffrwd a dosbarthiadau arbenigol yr awdurdod lleol.
Mae'r awdurdod wedi ymateb yn effeithiol i ofynion statudol Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Mae swyddogion wedi defnyddio dull trefnus, strategol a chefnogol trwy gydol y cyfnodau trawsnewid a gweithredu, gan sicrhau cyfnod pontio esmwyth i ysgolion a phlant a phobl ifanc.

### Ciplun: Cymorth creadigol ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY

Mae’r awdurdod lleol wedi bod yn greadigol o ran nodi ffyrdd i gefnogi plant a phobl ifanc ag ADY.

Mae swyddogion yn blaenoriaethu nodi ADY yn gynnar yn dda. Mae cylch chwarae ADY The Caterpillars yn enghreifftio’r ymrwymiad hwn, gan ddarparu ymagwedd amlasiantaethol at gymorth cynnar. Mae’r ddarpariaeth hon yn golygu y gellir nodi plant cyn-ysgol sydd angen cymorth ac yn cynnig arweiniad gwerthfawr i deuluoedd. Mae trefniadau pontio wedi’u cynllunio’n ofalus yn cynorthwyo’r plant hyn ymhellach wrth iddynt symud i addysg ffurfiol.

Mae grŵp llywio ADY cyfrwng Cymraeg dynodedig yr awdurdod, sef Datblygu Addysg Gymraeg Gynhwysol, yn sicrhau mynediad effeithiol a theg at gymorth i ddysgwyr. Mae’r grŵp amlasiantaethol hwn yn cynnwys seicolegwyr addysg, swyddogion gwella, athrawon arbenigol, ac arweinwyr ysgolion. Mae’r grŵp yn datblygu a rhannu ystod o adnoddau dwyieithog gwerthfawr ac yn darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol effeithiol, sydd hefyd yn cefnogi nodau Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yr awdurdod i hyrwyddo’r Gymraeg.

Mae’r awdurdod yn defnyddio ystod briodol o brosesau hunanwerthuso, er enghraifft trwy sesiynau cynllunio ac adolygu blynyddol gydag ysgolion i werthuso’r effaith yn briodol ar ddisgyblion unigol. Er bod arweinwyr yn ennill dealltwriaeth glir o’r cynnydd a wna disgyblion ag ADY trwy eu systemau gwerthuso, nid ydynt yn defnyddio’r wybodaeth hon yn ddigon da i werthuso effeithiolrwydd gwasanaethau ADY i’w helpu i gynllunio ar gyfer gwelliannau. Mae hyn yn rhwystro’r broses ar gyfer gwneud penderfyniadau strategol, gan gynnwys ynglŷn â defnyddio cyllid ADY mewn ysgolion.

### Pa mor effeithiol yw'r awdurdod wrth fynd i'r afael â lleihau effaith tlodi ar ddeilliannau i blant a phobl ifanc?

Mae pob un o’r swyddogion yn gwybod bod lliniaru effeithiau tlodi yn flaenoriaeth sy’n treiddio trwy bob agwedd ar waith yr awdurdod. Mae swyddogion yr awdurdod lleol yn adnabod eu cymunedau’n dda. Maent yn cydnabod bod tlodi yn ehangach na nifer y teuluoedd a allai fod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, a bod llawer o deuluoedd sy’n ymddangos eu bod yn ymdopi o drwch blewyn yn byw mewn tlodi, mewn gwirionedd.

Mae’r awdurdod yn cynnig darpariaeth Dechrau’n Deg ar gyfer ychydig dros draean o blant ifanc ar draws yr awdurdod, yn Gymraeg a Saesneg, fel ei gilydd. Mae’r sesiynau hyn yn cynnig cyfleoedd ar gyfer ymyriadau cynnar a chymorth i deuluoedd, yn ogystal â datblygiad medrau cynnar y plant ieuengaf, yn enwedig y rhai o aelwydydd incwm isel.

Ceir strategaeth werthfawr i gyflogi swyddogion ymgysylltu â theuluoedd i gyflenwi cymorth amlasiantaethol teilwredig o fewn eu cymunedau. Mae swyddogion angerddol, medrus ac ymroddgar a'u timau yn falch o'u gwaith, eu hymgysylltiad a'r gwahaniaeth a wnânt i deuluoedd a chymunedau lleol.

Mae swyddogion wedi gweithio i gyflwyno dysgu proffesiynol i holl staff ysgolion i gefnogi eu hysgolion i fod yn 'wybodus ynghylch tlodi'. Er enghraifft, ar draws yr awdurdod, mae staff sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc yn defnyddio sensitifrwydd priodol i annog a chefnogi disgyblion a allai fod yn fregus am unrhyw reswm, gan helpu chwalu rhwystrau rhag eu dysgu. Mae hyn wedi cefnogi gostyngiad nodedig mewn gwaharddiadau, a gwelliant mewn presenoldeb, ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

Mae swyddogion yn trafod gydag ysgolion sut gallent ddefnyddio'r grant datblygu disgyblion, sydd wedi'i fwriadu i wella deilliannau ar gyfer disgyblion o aelwydydd incwm isel. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn defnyddio'r grant yn unol ag arweiniad gan yr awdurdod, i wella ansawdd yr addysgu a'r dysgu, a chefnogi'r dull Ysgolion Bro. Fodd bynnag, nid yw gwerthusiadau o'r gwaith hwn yn canolbwyntio'n graff ar y cysylltiad rhwng gwario adnoddau targedig a lleihau effaith tlodi. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd i benaethiaid a'r awdurdod lleol nodi pa weithgareddau sydd fwyaf effeithiol, a thargedu eu gwaith dilynol i ddarparu'r gwerth gorau o ran adnoddau cyfyngedig yr awdurdod.

Yng nghyfnod allweddol 4, mae swyddogion wedi gwneud defnydd gwerthfawr o ddata ar gyrhaeddiad TGAU lefel 1 a phobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NACH) i ganolbwyntio o'r newydd ar y gefnogaeth y maent yn ei darparu. Mae'r enghraifft hon o hunanwerthuso defnyddiol wedi cynorthwyo'r awdurdod lleol i deilwra'i waith gydag ysgolion yn llwyddiannus, i leihau cyfran y bobl ifanc, yn enwedig y rhai o aelwydydd incwm isel, sy'n bobl NACH. Yn ychwanegol, mae'r awdurdod wedi gweithio'n agos gydag ysgolion a'r cyngor ieuenctid i adfer cynnig profiad gwaith ar gyfer disgyblion Blwyddyn 11, ac ailystyried y cynnig cwricwlwm galwedigaethol yng nghyfnod allweddol 4, i ymgysylltu'n well â disgyblion sydd wedi ymddieithrio.

## Arwain a gwella

Mae arweinwyr yng Nghastell-nedd Port Talbot wedi sefydlu gweledigaeth ddyheadol fod 'pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd.' Mae aelodau a swyddogion etholedig ar draws yr awdurdod lleol yn dangos ymrwymiad cryf i gyflawni'r uchelgais hon. Mae'n un o'r blaenoriaethau allweddol yn y cynllun corfforaethol ac yn adlewyrchu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a blaenoriaethau cenedlaethol yn briodol. Mae gan arweinwyr ar bob lefel ffocws cryf ar ddatblygu'r Gymraeg, wedi'i gefnogi gan Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) uchelgeisiol. Mae arweinwyr y CSCA yn dangos angerdd a

brwdfrydedd nodedig. Maent yn hyrwyddo'r iaith yn llwyddiannus fel ystyriaeth allweddol bron ym mhob agwedd ar waith y gyfarwyddiaeth addysg.

Ers dechrau yn ei swydd, mae'r Prif Swyddog Gweithredol newydd wedi cydnabod bod yr angen i gryfhau llywodraethu a gwneud penderfyniadau gwleidyddol yn fater brys. Ar y cyd â'r Cyfarwyddwr Strategaeth a Gwasanaethau Corfforaethol, mae'n dechrau sefydlu systemau a phrosesau cryfach, ochr yn ochr â defnyddio data yn effeithiol, i gefnogi aelodau a swyddogion etholedig i yrru'r gwelliant ar gyflymder da. Mae'n ddyddiau cynnar iawn o ran y datblygiadau hyn. Mae'r arweinydd, yr Aelod Cabinet dros Addysg ac aelodau o'r Pwyllgor Craffu Addysg yn gwerthfawrogi'r adroddiadau rheolaidd a gânt gan swyddogion i helpu llywio'u dealltwriaeth o waith y gyfarwyddiaeth. Fodd bynnag, mae'r adroddiadau hyn yn rhy ddisgrifiadol, ac o ganlyniad, nid yw aelodau'n cael eu hysbysu'n llawn am y cryfderau pwysicaf a'r meysydd mwyaf dybryd i'w datblygu yn y meysydd ffocws allweddol y maent yn eu hystyried. Mae hyn yn rhwystro'u gallu i graffu ar benderfyniadau'r Cabinet, adolygu perfformiad a chyfrannu at ddatblygiad polisi yn effeithiol. Er enghraifft, nid ydynt yn rhoi ystyriaeth lawn i berfformiad ysgolion, yn enwedig y rhai a allai beri pryder.

Mae gan y Cyfarwyddwr Addysg bortffolio corfforaethol eang ac amrywiol. Mae'n arwain tîm addysg sefydledig yn hyderus. Mae penaethiaid gwasanaethau a chydlynwyr yn gweithio'n ddiwyd i gyflwyno gwasanaethau buddiol o fewn eu meysydd cyfrifoldeb. Mae pob un ohonynt yn rhannu awydd cryf i wella cyfleoedd bywyd plant a phobl ifanc ar draws yr awdurdod. Mae cysylltiadau cryf a buddiol ar draws meysydd gwasanaeth yn meithrin ymdeimlad o waith tîm a chydweithio y mae lefelau uchel o ymddiriedaeth ymhlith cydweithwyr yn sail iddynt. Er enghraifft, mae swyddogion yn cydweithio'n dda wrth benderfynu sut orau y gallant ddefnyddio incwm grant ar draws eu cyfrifoldebau. Mae swyddogion wedi sefydlu a datblygu partneriaethau gwerthfawr ag asiantaethau a sefydliadau allanol hefyd i helpu hwyluso darpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc. Roedd y cryfderau hyn i'w gweld o fewn arolygiad cadarnhaol y gwasanaeth ieuenctid diweddar yn ogystal.

Er bod perthnasoedd cryf a chydweithredol o fewn y gwasanaeth, mae prosesau rheolaeth llinell yn rhy anffurfiol. Yn ychwanegol, nid yw prosesau rheoli perfformiad ffurfiol yn nodi amcanion ag iddynt ffocws craff yn ddigon da. O ganlyniad, ni chaiff arweinwyr a swyddogion eu dwyn i gyfrif yn ddigonol am ansawdd eu gwaith, a'i effaith.

Mae arweinwyr wedi nodi wyth blaenoriaeth eang ar draws y gyfarwyddiaeth. Mae tair thema drawsbynciol yn sail i'r rhain, ac mae swyddogion yn eu hystyried ar draws nifer fawr o gynlluniau tîm. Mae lleihau effaith tlodi ar gyfleoedd bywyd plant a phobl ifanc hefyd yn cael ei ystyried yn flaenoriaeth allweddol o fewn gwaith y gwasanaeth. Er bod cynllunio ar draws y gyfarwyddiaeth yn amlinellu gweithgarwch buddiol, nid yw effaith fwriadedig gwaith timau yn ddigon clir. Mae prosesau sicrhau ansawdd a hunanwerthuso

yn canolbwyntio'n ormodol ar fonitro'r camau a gymerwyd, ac maent yn aml yn rhy hael. Nid ydynt yn nodi meysydd sydd angen eu gwella yn ddigon manwl gywir. Mae hyn yn amlwg yng nghanfyddiadau'r cwestiynau arolygu lleol. At ei gilydd, nid yw'r gwerthusiad o waith y gwasanaeth yn canolbwyntio'n ddigon da ar yr effaith a gaiff ar ddeilliannau disgyblion. Nid yw swyddogion yn nodi'n glir yr agweddau ar waith sy'n cynnig y gwerth gorau am arian iddynt a pha strategaethau sydd wedi cael yr effaith fwyaf. Dros gyfnod, nid aethpwyd i'r afael yn ddigon cyflym â materion pwysig, gan gynnwys yr heriau ariannol sy'n wynebu ysgolion.

Yn gyffredinol, mae swyddogion wedi datblygu a chynnal perthnasoedd cryf ag arweinwyr ysgolion. Maent yn cynnig cymorth ymarferol buddiol sy'n cael ei werthfawrogi'n fawr gan staff ysgolion. Pan geir digwyddiadau brys, mae swyddogion yn ymateb yn gyflym ac yn drylwyr i fynd i'r afael â'r materion hyn, gan fod yn ystyriol o les pawb dan sylw.

Mae'r awdurdod lleol yn defnyddio dulliau amrywiol i ddarparu cyfleoedd i blant a phobl ifanc a'r gymuned ehangach gymryd rhan yng ngwaith y cyngor, a'i lywio. Mae ymgyrch 'Dewch i Sgwrsio' yn ymgysylltu â'r gymuned wrth ddatblygu'r cynllun corfforaethol. Mae'r awdurdod lleol yn gweithio'n dda gyda'r cyngor ieuenctid, grwpiau fel pobl ifanc LHDTC+ a'r rhai sydd mewn perygl o ymddieithrio. Mae adborth gan bobl ifanc yn arwain at ddatblygu canolfan fedrau a'r ddarpariaeth well mewn ysgolion i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion hŷn o faterion fel cromio (chroming), hiliaeth ac iechyd rhywiol.

Ceir diwylliant diogelu cryf ar draws yr awdurdod lleol. Mae hyn yn treiddio o uwch swyddogion trwy'r gyfarwyddiaeth addysg ac i mewn i ysgolion. Mae'r polisi diogelu corfforaethol yn darparu fframwaith priodol sy'n amlinellu cyfrifoldebau pob un o'r cyflogeion a'r aelodau etholedig o ran diogelu ac amddiffyn plant a phobl ifanc sydd mewn perygl.

Mae swyddogion diogelu addysg yn darparu lefel uchel o gymorth i ysgolion trwy ystod o hyfforddiant o ansawdd da, cylchlythyrau rheolaidd a chyngor amserol. Mae swyddogion yn sicrhau eu bod yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ysgolion yn gyson am faterion diogelu pwysig, er enghraifft newidiadau mewn deddfwriaeth, fel 'Cyfraith Martyn'. Maent yn casglu a dadansoddi data ysgolion yn rheolaidd, fel nifer y digwyddiadau hiliol, a'r math o ddigwyddiadau hiliol, i nodi a mynd i'r afael â phatrymau digwyddiadau. Mae swyddogion yn craffu ar archwiliad diogelu blynyddol pob ysgol, ac yn darparu her a chymorth, pan fydd angen. Bob tair blynedd, mae'r adolygiadau cymheiriaid diogelu yn craffu ar arferion diogelu pob ysgol yn fanwl. Mae'r awdurdod lleol yn sicrhau arferion recriwtio diogel cadarn mewn ysgolion.

Mae uwch arweinwyr yn deall sefyllfa ariannol bresennol y gyfarwyddiaeth a chyllidebau dirprwyedig eu hysgolion yn dda. Yn y blynyddoedd diwethaf, nid yw'r awdurdod wedi gofyn i ysgolion gyfrannu at ei raglen arbedion ac mae wedi ariannu dyfarniadau cyflog yn

llawn. Mae arweinwyr wedi darparu cyllid ychwanegol i fynd i'r afael â phwysau penodol, gan gynnwys cludiant o'r cartref i'r ysgol, costau cyfleustodau a nifer gynyddol y disgyblion sydd ag anghenion mwy cymhleth, lle bu'n bosibl, ac o fewn yr adnoddau ariannol cyffredinol sydd ar gael i'r awdurdod. Fodd bynnag, dros gyfnod, nid yw penderfyniadau strategol wedi lliniaru'n llawn yn erbyn yr heriau ariannol cynyddol sy'n wynebu'r gyfarwyddiaeth a'r ysgolion.

Mewn cyllidebau diweddar, mae'r awdurdod wedi cynyddu gwariant ar gyfer y gwasanaeth addysg canolog a chyllidebau ysgolion unigol. Fodd bynnag, mae'r cynnydd hwnnw wedi bod islaw cyfartaledd Cymru. Er 2022-23, mae cyfradd ddirprwyo'r Cyngor i ysgolion wedi gostwng o 80.7% i 80%, ac mae'n agos at gyfartaledd Cymru, erbyn hyn. Gwariant wedi'i gyllidebu'r awdurdod fesul disgybl uwchradd oedd yr ail isaf yng Nghymru yn 2024/25 a thros £500 fesul disgybl yn is na chymedr Cymru. Gwariant yr awdurdod fesul disgybl cynradd oedd y seithfed uchaf, a'r trydydd isaf ar gyfer disgyblion ysgolion pob oed.

Mae ysgolion o'r farn fod cymorth yr awdurdod i reoli eu cyllidebau dirprwyedig yn fuddiol, gan gynnwys defnydd pwrpasol o ddata cymharol. Mae'r awdurdod yn darparu hyfforddiant i arweinwyr ysgolion newydd a thros dro ar greu a rheoli cyllidebau.

Er bod cyllidebau ysgolion dirprwyedig wedi cynyddu yn y blynyddoedd diwethaf, mae sefyllfa gyffredinol cronfeydd wrth gefn ysgolion wedi gwaethygu er 2021-22. Ar yr adeg hon, roedd gan ysgolion £12.6 miliwn mewn cronfeydd wrth gefn cadarnhaol. Gostyngodd hyn i ddiffyg cyffredinol o £2.7 miliwn ar ddiwedd 2024-25. Yn yr awdurdod, roedd gan falansau 24 o'r 55 ysgol gynradd, pedair o'r pum ysgol uwchradd, a dwy o'r tair ysgol bob oed ddiffyg ar ddiwedd y flwyddyn honno.

Yn yr ychydig iawn o ysgolion cynradd sydd â sefyllfaoedd â diffyg hirsefydledig, mae cymorth a her barhaus yr awdurdod wedi bod yn aneffeithiol o ran adfer y diffygion hynny'n llawn. Mae risg nad yw'r cyllidebau ysgol hynny'n adferadwy yn y tymor byr i'r tymor canolig. At ei gilydd, nid yw cynlluniau adfer diffygion ysgolion yn darparu camau gweithredu digon cadarn yn gyson i adfer y diffygion hynny'n llawn o fewn tair blynedd. Hyd yma, mae'r awdurdod wedi dewis peidio â defnyddio'i bwerau statudol o ran rheoli cyllidebau ysgolion oherwydd ymgysylltiad cadarnhaol a pharhaus ysgolion yn ei brosesau rheoli ariannol.

Roedd gan ychydig o ysgolion gronfeydd wrth gefn dros ben ar ddiwedd 2024-25 a oedd yn rhagori ar arweiniad yr awdurdod. Yn sgil yr heriau ariannol presennol a'r heriau ariannol posibl yn y dyfodol ar draws y gwasanaeth addysg a'r ysgolion, mae'r awdurdod lleol wedi dewis monitro cynlluniau ysgolion yn agos i ddefnyddio'r arian dros ben hwnnw yn hytrach na rhoi cyfarwyddyd i ysgolion ar eu defnyddio.

Er bod yr awdurdod yn adolygu ei fformiwla cyllid ysgolion bob blwyddyn, cymeradwyodd ddiwygiadau sylweddol i'w fformiwla ddiwethaf yn 2011. Cwblhaodd yr awdurdod adolygiad cynhwysfawr o'i fformiwla ar ddiwedd 2019. Yn rhannol o ganlyniad i effaith pandemig Covid-19, nid yw'r awdurdod wedi bwrw ymlaen â'r newidiadau arfaethedig hynny eto. Mae'r awdurdod lleol wedi cydnabod bod angen diwygio'i fformiwla i sicrhau ei bod yn addas at ei diben ac i adlewyrchu newidiadau diweddar, er enghraifft nifer gynyddol y disgyblion sydd ag anghenion mwy cymhleth. Mae'r awdurdod lleol yn diwygio'r fformiwla fesul llinell gydag uchelgais i gytuno ar newidiadau o'r fath i lywio'i benderfyniadau am y gyllideb flynyddol nesaf.

Ar ôl cyfnod o ddwy flynedd pan na chyfarfu fforwm cyllideb ysgolion statudol yr awdurdod, mae'r awdurdod wedi ailddechrau'r cyfarfodydd hyn yn ddiweddar. Yn ystod y cyfnod pan na chyfarfu'r fforwm, bu'r awdurdod yn rhannu gwybodaeth am faterion ariannol yn effeithio ar ysgolion gyda grwpiau o randdeiliaid perthnasol. Fodd bynnag, nid arweiniodd y dull hwnnw at drafodaethau ar y cyd. Mae gan y fforwm gynrychiolaeth effeithiol ar draws pob sector ac mae wedi ymrwymo i weithio'n agored gyda'r awdurdod i drafod yr heriau ariannol sylweddol a'r broses diwygio fformiwla.

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r awdurdod wedi parhau i ddarparu cyllid cyfalaf ar gyfer ei raglen gwella ysgolion strategol sydd wedi ailfodelu ystâd gyffredinol yr ysgolion ac wedi lleihau lleoedd dros ben. Mae'r awdurdod yn sicrhau bod hyn yn alinio'n dda â'i raglen dreigl o waith cyfalaf i leihau ôl-groniad o waith cynnal a chadw mewn ysgolion y mae'n asesu eu bod yn y cyflwr gwaethaf.

Mae'r awdurdod yn darparu ystod o gytundebau lefel gwasanaeth y mae'n eu hadolygu bob blwyddyn gydag ysgolion. Mae arweinwyr ysgolion yn ymgysylltu'n gadarnhaol ag adolygiadau o'r cytundebau hynny ac mae'r awdurdod yn gwneud newidiadau yn seiliedig ar yr adborth sy'n dod i law.

Mae gwerthusiadau'r awdurdod o ba mor effeithiol y mae'n defnyddio'i adnoddau trwy gyflwyno'i wasanaethau neu wasanaethau wedi'u comisiynu yn anghyson ac nid ydynt yn ddigon manwl gywir. Mae hyn yn cyfyngu ar allu'r awdurdod i werthuso'n feirniadol sut orau i ddefnyddio'i adnoddau cyfyngedig i gyflawni ei amcanion.

Mae adroddiadau monitro cyllideb yr awdurdod i'r Pwyllgor Craffu ar Gyllid a'r Cabinet yn amlygu pwysau o ran y gyllideb o fewn y gyfarwyddiaeth a chyllidebau ysgolion dirprwyedig. Fodd bynnag, nid yw'r adroddiadau hynny'n ddigon manwl. Mae hyn yn cyfyngu ar allu aelodau etholedig i ddeall yr heriau ariannol nodedig sy'n wynebu ysgolion penodol a'r gwasanaethau addysg ehangach, a sut gallai'r rheiny beryglu sefyllfa ariannol yr awdurdod.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn ymgynghori â'r awdurdod lleol ar y cwestiynau arolygu lleol i'w defnyddio yn ystod yr arolygiad, yn seiliedig ar hunanwerthusiad yr awdurdod, cynlluniau strategol a data perthnasol a ddelir gan Estyn
- yn dadansoddi'r canlyniadau o holiaduron agored, yn cynnwys barn dysgwyr, rhieni, staff a llywodraethwyr ysgolion, staff yr awdurdod lleol, staff y consortiwm rhanbarthol, aelodau etholedig a'r cyhoedd
- yn cynnal ymweliad rhagarweiniol â'r awdurdod lleol i gyfarfod ag ystod o bartneriaid perthnasol i wasanaethau addysg, fel cynrychiolwyr dysgwyr, penaethiaid a llywodraethwyr, ac arweinwyr o asiantaethau statudol a'r trydydd sector sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cyfarfod ag arweinydd y Cyngor, aelodau etholedig sy'n gyfrifol am wasanaethau addysg, aelodau etholedig sy'n gyfrifol am graffu ar wasanaethau addysg, y prif weithredwr, y cyfarwyddwr addysg, arweinwyr a rheolwyr eraill mewn gwasanaethau addysg, staff perthnasol eraill yn yr awdurdod lleol, rheolwr gyfarwyddwr y consortiwm rhanbarthol ar gyfer gwella ysgolion, a staff perthnasol eraill o'r consortiwm rhanbarthol
- yn edrych yn agos ar brosesau hunanwerthuso'r awdurdod lleol
- yn ystyried cynlluniau strategol a gweithredol yr awdurdod lleol ar gyfer gwella
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau, yn cynnwys gwybodaeth am ddeilliannau dysgwyr, gwybodaeth am berfformiad ysgolion a lleoliadau addysg eraill, yn cynnwys gwybodaeth gan y consortiwm rhanbarthol ar gyfer gwella ysgolion, cofnodion o amrywiaeth o gyfarfodydd, adroddiadau a gyflwynwyd i'r Cyngor neu'r pwyllgor craffu, gwybodaeth yn ymwneud â diogelu dysgwyr, ac unrhyw wybodaeth arall sy'n berthnasol i wasanaethau addysg yr awdurdod lleol a ddelir gan Estyn

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu, er mwyn dilysu, cymedroli a sicrhau ansawdd yr arolygiad
- yn darparu copi drafft o'r adroddiad i'r awdurdod lleol i nodi unrhyw bryderon â chywirdeb ffeithiol, a gwneud diwygiadau ble mae angen

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr awdurdod lleol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 38 Deddf Addysg 1997, Deddf Plant 2004 a Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.  Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  17/07/2025